PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 13 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd), Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Phillips, Taylor a/ac Singh |
| | Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |
| | Chloe Burrage (Cyngor Ieuenctid Caerdydd) |

38 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Heather Joyce a Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr)

39 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

40 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref yn gofnod cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

41 : DINAS SY'N DDA I BLANT CAERDYDD – STRATEGAETH DDRAFFT

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes), Lee Patterson (Swyddog Addysg Gymunedol) a Marianne Mannelo (Cyfarwyddwr Polisi, Chwarae Cymru) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle nododd fod y rheswm dros ystyried strategaeth o'r fath yn ymwneud i raddau helaeth â'r mesurau cyni a'r toriadau mewn cyllid a'i bod yn hanfodol ystyried a diogelu anghenion y plant mwyaf diamddiffyn ac y caiff gwasanaethau eu dylunio i fod yn addas ar eu cyfer. Rhaid ymgynghori â phlant am yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr bwysigrwydd y rhaglen a phwysigrwydd gwaith partneriaeth cryf. Ymrwymodd y Cabinet i'r rhaglen Dinas sy'n Dda i Blant ym mis Mawrth 2017. Er y cafwyd cynnydd sylweddol o ran cyfranogaeth a phartneriaethau, prin yw'r ffocws ar yr hyn y bydd y rhaglen hon yn ei wneud; mae'n bwysig dangos ein bod wedi gwneud gwahaniaeth i berson ifanc yng Nghaerdydd. Mae'r ffocws hwnnw bellach wedi ffurfio sail i strategaeth. Yn y cyflwyniad Gweithio tuag at Ddinas sy'n Dda i Blant, amlinellwyd datblygiad y rhaglen; cyflwyno'r rhaglen hyd yma; y weledigaeth (mae Caerdydd yn 'lle gwych i gael eich magu') ar gyfer Caerdydd sy'n Dda i Blant; a'r 5 nod a'r 17 ymrwymiad, sef:

Nod 1 – Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i drin yn deg;

Nod 2 – Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i'w farn, ei anghenion a'i flaenoriaethau gael eu clywed a'u hystyried;
Nod 3 – Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei fagu mewn cartref diogel a chefnogol;
Nod 4 – Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad i addysg o safon sy'n hyrwyddo ei hawliau ac yn ei helpu i ddatblygu ei sgiliau a'i ddoniau'n llawn;
Nod 5 – Mae gan blant iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da ac maen nhw'n gwybod sut i gadw'n iach.

Rhoddodd Marianne Mannelo (Cyfarwyddwr Polisi, Chwarae Cymru) wybodaeth i'r Aelodau am y Cynllun Peilot Cau Ffyrdd i Chwarae ar y Stryd sydd ar waith o hyd, gan nodi bod sefydliad sy'n cefnogi chwarae ar y stryd – o'r enw Playing Out - wedi cysylltu â nhw. O ganlyniad sefydlwyd cynllun peilot mewn sawl cymuned ym mis Awst 2017 a barodd am 5 mis i ddechrau. Fe'u cynhaliwyd mewn cymdogaethau lle gellid defnyddio ffyrdd trydyddol a ffyrdd heb draffig bysiau. Cafodd y ffyrdd eu cau am ychydig oriau bob mis. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol gyda phlant yn chwarae y tu allan ac yn teimlo'n fwy diogel a rhieni'n dod i adnabod eu cymdogion. Nid symud y plant rhag perygl yw'r bwriad ond cefnogi rheini i reoli'r asesiad risg. Gall y model fod yn ymyriad cost niwtral yn y ddinas, er y defnyddiwyd peth cyllid er mwyn darparu siacedi llachar i stiwardiaid.

Nododd Aelodau y cynhelir lansiad y Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant yn Neuadd y Ddinas ddydd Mawrth 20 Tachwedd 2018.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelodau fod ffyrdd yn cael eu cau bob mis yn answyddogol yn ward yr Eglwys Newydd a Thongwynlais; y gobaith oedd y gallai hyn ddod yn drefniant swyddogol. Awgrymodd Aelodau fod chwaraeon a cherddoriaeth yn ddulliau eraill y gellid eu defnyddio i annog plant, yn benodol wrth ystyried nifer mawr y grwpiau chwaraeon sydd ar gael. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod strategaeth gerddoriaeth i'r ddinas yn cael ei hystyried.

  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am yr anawsterau wrth gael yr awdurdod perthnasol i gau strydoedd at ddiben chwarae; mae ceisiadau i estyn y cynllun peilot wedi cael eu gwrthod, yn benodol oherwydd y broses ddeddfwriaethol y mae angen ymgymryd â hi. Mae angen yr un broses i gau ffordd am 2 awr neu i gau ffyrdd am wythnos er mwyn ffilmio Doctor Who. Nid yw'r costau'n gymesur.

- Nododd Aelodau fod plant wedi dweud bod Caerdydd yn teimlo fel dinas ddiogel. Nid amlygwyd camddefnyddio alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith y pryderon mwyaf difrifol sydd gan blant. Mae Unicef o'r farn nad oes modd datrys holl broblemau'r ddinas; fodd bynnag, mae'n rhaid gwrando ar bobl ifanc.

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad pam nad oedd y geiriau 'deiet' a 'gordewdra' yn codi; mae'r strategaeth yn defnyddio'r geiriau 'lles'

ac ‘iechyd meddwl’.  Nododd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn gweithio’n agos gyda’r Bwrdd Iechyd i helpu i lunio polisïau. Roeddent yn awyddus ei bod yn brif flaenoriaeth i beidio â defnyddio ‘gordewdra’.  Mae lles yn cynnwys bwyd, bwyta’n iach a deiet. Wrth gwrs, dyheadau yw’r rhain ond nid ydynt wedi cael eu nodi’n benodol yn y camau gweithredu. Gall yr Aelodau weld y cynllun gweithredu drafft cynnar.  Nododd Aelodau fod y Cyfarwyddwr yn gadeirydd grŵp y strategaeth; mae grŵp gweithredol ehangach hefyd a Bwrdd Cynghori Pobl Ifanc.

Wrth gydnabod bod ysgolion ar flaen y gad o ran bwyd ysgol iach, nododd Aelodau y dylid gwneud ymrwymiad dinas gyfan i leihau amlygrwydd bwyd jync.

- Gofynnodd Aelodau a ddylid cyflwyno’r adroddiad blynyddol i’r Cyngor yn ogystal â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Atebodd yr Aelod Cabinet fod problem o ran fformat ac mai menter bartneriaeth ydyw yn hytrach na menter y Cyngor ond, mewn egwyddor, byddai’n syniad da ei rannu. Gofynnodd Aelodau iddo gael ei rannu â’r pwyllgor hwn os nad oes modd ei rannu â’r Cyngor.

- Nododd Aelodau mai’r ail nod oedd i bob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i’w farn, ei anghenion a’i flaenoriaethau gael eu clywed a’u hystyried, ond holwyd ynghylch sut mae hyn yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu.  Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod rhaid ystyried newid y llywodraethu ac, er bod y bwrdd cynghori’n helpu, mae angen i ragor o blant a phobl ifanc ddal y Cyngor i gyfrif. Rhaid ystyried sut gellir cynnwys y sector preifat.

  Mae angen canolbwyntio hefyd ar bobl ifanc sy’n agored i niwed a’r hyn mae pobl ifanc mewn gofal yn ei ddweud. Er enghraifft, nid ydynt yn gallu cael lifft gyda’u mam neu eu tad sy’n gallu eu rhwystro rhag symud o le i le yng Nghaerdydd, felly cynhelir trafodaethau â Bws Caerdydd ynglŷn â hyn.

- Nododd Aelodau fod y digwyddiad ar 20 Tachwedd yn ddathliad o hawliau plant ac nid yw’n ymarfer ymgynghori, er iddynt gredu ei bod yn bwysig bod angen i blant a phobl ifanc wybod ei bwrpas.

- Trafododd yr Aelodau reidrwydd cynnwys y sector preifat gan nodi bod angen hyrwyddo’r rhaglen y tu hwnt i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Holodd Aelodau ynghylch yr ymrwymiad â staff rheng flaen, neu elusennau sydd â rhaglenni ar hyn o bryd gan weithio o ddydd i ddydd yn gwrando ar anghenion plant, a rhoddwyd gwybod iddynt yr ystyrir darparu llwyfan a fforwm ar gyfer rhannu syniadau. Mae’n rhan o’r cynllun cyflawni.

- Bu’r Aelodau’n trafod budd rhannu arfer gorau, o gofio nifer y cynghorau yn y DU sydd ar y daith hon.  Nodwyd bod y cydlynwyr

yn cael eu dwyn ynghyd gan Unicef yn rheolaidd; Caerdydd yw'r ddinas gyntaf i lunio darn o waith. Gellir rhannu gwybodaeth hefyd trwy borth sy'n gronfa wybodaeth.

- Holodd Aelodau ynghylch ariannu'r strategaeth a rhoddwyd gwybod iddynt mai cyfanswm y gost oedd £80k, gan gynnwys holl gostau staff, gweithredu ac ati, sy'n cynnwys £25k i Unicef.

- Bu'r Aelodau'n trafod yr angen i sicrhau bod y Pwyllgor ac Aelodau eraill yn cyflawni'r holl hyfforddiant mae Unicef yn ei gynnig. Mae'n bwysig bod wir ddealltwriaeth o ystyr hawliau plant.

  Diolchodd y Pwyllgor i Lee Patterson am ei waith caled gan ofyn iddo roi adroddiadau rheolaidd am gynnydd o ran gweithredu'r strategaeth.

PENDERFYNWYD:

Y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

## 42 : 'ACHUB AR Y CYFLE' SIAPI CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU - BRIFF AR LAFAR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes), Suzanne Scarlet (Rheolwr Perfformiad) a Natalie Stork (Swyddog Perfformiad a Gwybodaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i wneud datganiad byr. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau, 'Llunio cwricwlwm newydd i Gymru', a dangoswyd clip iddynt o un o'r siaradwyr, Victor Ciunca o'r Cyngor Ieuenctid, yn annerch y gynulleidfa yng Nghynhadledd Addysg Caerdydd ar 23 Hydref 2018.<0}

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch y cyflwyniad. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau a fydd graddau, hyd yn oed gyda phedwar diben allweddol y cwricwlwm newydd, yn parhau i gymell plant yn yr ysgol a chyflogwyr. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr arfer mewn ysgolion cynradd yn debyg iawn i ddelfryd Dyfodol Llewyrchus – yr her fwyaf yw ailystyried addysg uwchradd. Nododd Aelodau fod CBAC yn gobeithio dechrau sgwrs ag ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu system brofi newydd.

- Holodd Aelodau ynghylch yr hyn sy'n digwydd i'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl os nad yw cyflogwyr ac ysgolion yn symud ymlaen ar yr un cyflymdra. Nododd swyddogion eu bod yn ymwneud â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a Bargen Ddinesig Caerdydd wrth ystyried cynyddu sgiliau'r gweithlu presennol. Mae angen rhoi sylw gofalus i'r grŵp oedran ôl-16. Y gobaith yw y bydd y Fargen Ddinesig yn datblygu rhaglen i ysgogi dysgwyr. Mae'n

bwysig nodi a rhannu cyfleoedd.

- Bu’r Aelodau’n trafod y trefniadau asesu. Mae’n bwysig sicrhau na chaiff cwricwlwm blaengar ei ddylunio ond i gael ei ddilyn gan broses asesu hynafol. Mae peth gwaith yn cael ei wneud ar asesiadau sy’n seiliedig ar gymhwysedd yn hytrach na chynnal asesiadau ar y pwyntiau trothwy tyngedfennol yn ystod gyrfa ysgol. Fodd bynnag, nodwyd bod gormod o ffocws o hyd ar arholiadau; efallai y dylid holi Cymwysterau Cymru am hyn. Mae angen iddynt osgoi ailadrodd yr hyn a ddigwyddodd yn system addysg yr Alban.

- Bu’r Aelodau’r trafod y daith addysg a diwygio yng Nghymru ond nodwyd na chaiff canlyniadau Pisa eu cyhoeddi tan y flwyddyn nesaf. Nododd Aelodau ei bod yn bwysig hefyd y ceir hyder yn y system addysg gan bob sector; os na cheir, ni fydd yn para.

- Bu’r Aelodau’n trafod pwysigrwydd dysgu trwy ryngweithio a’r ffaith fod angen cynnwys hynny yn y cwricwlwm. Mewn bywyd mae unrhyw beth a wnawn yn cael ei wneud ar y cyd – mae angen newid perthnasoedd cymdeithasol ym myd addysg, ac yna bydd angen ystyried sut i’w asesu.

  Lluniodd y Cyngor Ieuenctid Adroddiad Cwricwlwm am Oes bedair blynedd yn ôl; mae angen ei wreiddio mewn ysgolion bellach. Mae gwahaniaeth rhwng yr hyn yr oedd ysgolion yn meddwl eu bod yn ei wneud i ddisgyblion a’r hyn yr oedd disgyblion yn meddwl bod ysgolion yn ei wneud iddyn nhw.

PENDERFYNWYD:

Y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

43 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd y byddai’n cael eu cynnwys yn y llythyrau a fyddai’n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a’r Swyddogion perthnasol.

44 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid ystyriwyd unrhyw eitemau brys.

45 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 11 Rhagfyr 2018 am 4.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm